# LLOFRUDDIAETH TEULU O WYTH.

## HANES Y LLOFRUDD

# ANTOINE PROBST,

A laddodd deulu cyfan, yn cynwys wyth mewn nifer, o'r enw Dearing, yn Philadelphia, ar y 7fed o Ebrill, 1866. Yr hanes a roddir yn ol ei gyfaddefiad ei hun. Trachwant am arian a achosodd y llofruddiaethau hyn eto; ond ni chafodd ond ychydig, ac wedi iddo eu cael efe a'u gwariodd ar oferedd.

Onid yw yn warth i'r gwledydd,
Llofruddiaethau sydd ar gynydd;
Ac wrth roi hanes mwrddrad 'sgeler,
Daw un arall gwaeth o'r haner.

Muller oedd yn llofrudd creulon,
Robert Coc yn warth i ddynion;
Ond mae mwrddrwr Philadelphia
Lawer gwaeth nag un o'r rhei'na.

Dim ond un a laddodd Muller,
Un a laddodd Coe ysgeler,
Ond Antoine Probst heb oedi
Laddodd wyth yn yr un teulu.

'Nol i'r llys ei brofi'n euog
O'r gweithredoedd annhrugarog,
Cyfaddefodd ef y cyfan,
A thyma'i eiriau ef ei hunan:—

"Bum am ddyddiau yn dyfeisio
Y ffordd oreu i'w llofruddio,
Ac yn gyntaf lladdais Carey,
Bachgen bach oedd was i'r teulu.

"Pan yn arwain cart a cheffyl
Hwn a drawais yn ei wegil,
Ac a'r fwyall yn dra llidiog
Ffwrdd a'i ben fel pen i geiliog.

"Roedd rhyw ddychryn braidd wrth
ddechrau,
Ond pan redai'i waed yn ffrydiau,
Trwy gynorthwy teulu'r fagddu
Lladdwn gant mor rhwydd a hyny.

"Y nesaf ydoedd John y 'tifedd,
Wedi ei ddenu maes o'i anedd,
A phan yn dod trwy ddrws y stabal
Lladdais hwn heb ddim i'm hatal.

H705 236137

"Yna Mrs. Dearing anwyl
Alwais maes i wel'd y ceffyl,
A phan yn dod i'r stabal eto
Dyna'r fwyall yn ei tharo.

"Wedi lladd y tri a nodais
A thori eu penau mi a'u cuddiais,
Yna es i'r tŷ'n ddiattal
Er denu'r plant i ddod i'r stabal.

"Denais Thomas tuag yno,
Gan ddwedyd bod ei fam 'n ei geisio;
A phan trwy'r drws y deuai yntau
Y fwyell lem fu iddo'n angau.

"Dim ond dau o'r plant oedd eto
Yn y tŷ heb gael ei mwrddro,
Geneth fach tair blwydd o oedran,
A phedwar mis ar ddeg oedd baban.

"Dweyd yn ddengar wnes wrth Annie
Fod ei mam yn galw arni,
Hithau ddaeth, a mi fy hunan,
Yn fy mreichiau es â'r baban.

"Rhoes y baban fel mewn gwely
Tra bawn i'n dybenu Annie;
Yna'r baban bach diniwed
Ga'dd ddyoddef yr un dynged.

"Mr. Dearing oedd ar siwrnau,
Wedi myn'd am dro o gartre'
Ond pan ddaeth yn ol i'w letty
Lladdais yntau fel y teulu.

"Ac yn olaf 'roedd Miss Dolan,
Ar ymweliad ddaeth i'r dreflan,
Hithau hefyd a lofruddiais,
Dyna enwau'r wyth ddybenais.

"Wedi eu lladd, eu penau dorais,
Ac yn rhes ar lawr eu dodais,
Ac 'roedd ynwyf ryw lawenydd
Mod i'n enwog wr fel llofrudd."

Dyna'r hanes roes yr adyn,
Oni chwyd eich gwallt mewn dychryn?
Onid yw eich gwaed yn fferu
Pan yn gwrando'r greulon stori.

Nid yw crogi'n hanner digon
Am gyflawni gwaith mor greulon,
Ond beth bynag a wneir iddo
Ni ddaw'r wyth i fywyd eto.